## GWYBODAETH I'R CLAF – CYFARWYDDIADAU YN DILYN ANESTHETIG I'R LLYGAD

Efallai y bydd eich llygad yn boenus am sawl diwrnod. Gall cyffuriau syml ladd poen helpu i leihau'r boen.  Os ydych yn cymryd meddyginiaethau eraill, gofynnwch am gyngor cyn eich bod yn gadael yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

### Pad Llygad

Efallai eich bod wedi cael pad llygad dwbl i wisgo a fydd yn eich helpu i deimlo'n fwy cyfforddus. Dylech wisgo'r pad llygad tan y dos nesaf o unrhyw eli llygaid rhagnodedig (pob 4 - 6 awr).

Ni ddylech yrru wrth wisgo pad llygaid neu os yw eich golwg wedi cael ei effeithio. Ni fydd eich yswiriant modur yn ddilys mewn achos o ddamwain.

### Rhoi'r eli a roddwyd i chi yn eich llygad

- Golchwch eich dwylo
- Tynnwch eich amrant isaf i lawr a chan ddechrau yn y man agosaf at eich trwyn, gwasgwch yr eli gan symud allan tuag at eich clust. Efallai y bydd yn haws i rywun arall wneud hyn drosoch chi.
- Parhewch i roi'r eli yn eich llygad yn ôl y cyfarwyddyd y cawsoch chi yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys

### Os yw'r symptomau'n parhau

Os yw'r symptomau'n parhau mwy na 48 awr, cysylltwch â'ch meddyg teulu. Os dymunwch, gallwch ddychwelyd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

**Cofiwch beidio â rhwbio eich llygad**

Os byddwch chi'n sâl, neu yn cael eich anafu, dewiswch y gwasanaeth cywir gan y GIG er mwyn sicrhau'r driniaeth orau. Mae ymgyrch Dewis Doeth yn esbonio beth mae pob gwasanaeth yn ei wneud a phryd y dylid ei ddefnyddio.

Bydd dewis yn ddoeth yn golygu eich bod chi a'ch teulu yn derbyn y driniaeth orau. Mae hefyd yn feddwl bod gwasanaethau prysur y GIG ar gael i gynorthwyo'r bobl sydd â'r angen mwyaf.

Os nad ydych yn sicr pa ddewis yw'r un cywir, a wnewch chi ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 os gwelwch yn dda neu ewch at wefan dewis doeth www.dewisdoethcymru.org.uk

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei gynhyrchu yn seiliedig ar daflenni gwybodaeth flaenorol a'r dystiolaeth sydd ar gael ar adeg cyhoeddi. Mae wedi cael ei adolygu'n glinigol, fodd bynnag, os ydych yn sylwi ar unrhyw beth y mae angen diweddaru neu ddiwygio, cysylltwch â ppi.team@wales.nhs.uk

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn iaith neu ar ffurf arall gofynnwch i aelod o'r staff os gwelwch yn dda

**Cyngor neu wybodaeth bellach**
Galw Iechyd Cymru – 0845 46 47
www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk



Last Checked: 10.09.15
Review date: October 2016